

---

# Cynllun Iaith Gymraeg

---

9 Mawrth 2018

---

## 1. Cyflwyniad

- 1.1 Y British Council yw sefydliad rhyngwladol y Deyrnas Unedig ar gyfer cysylltiadau diwylliannol a chyfleoedd addysgol. Rydym yn creu dealltwriaeth gyfeillgar rhwng pobl y Deyrnas Unedig a gwledydd eraill. Rydym yn gwneud hyn drwy wneud cyfraniad cadarnhaol i'r Deyrnas Unedig a'r gwledydd rydym yn gweithio gyda nhw – rydym yn newid bywydau drwy greu cyfleoedd, adeiladu cysylltiadau a meithrin hyder.
- 1.2 O dan [Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993](#) rhaid i bob corff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru baratoi cynllun yn nodi sut y bydd yn darparu'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg. Dyma ein cynllun.
- 1.3 Mae'n disgrifio sut y byddwn yn gweithredu'r egwyddor a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, cyn belled â bod hynny'n briodol yn yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol. Mae'r Cynllun hefyd yn cydnabod statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru fel y sefydlwyd ym [Mesur y Gymraeg \(Cymru\) 2011](#).
- 1.4 Mae'r cynllun yn cwmpasu'r gwasanaethau rydym yn eu darparu i'r cyhoedd yng Nghymru.
- 1.5 Yn y cynllun hwn, mae'r term **cyhoedd** yn golygu unigolion, personau cyfreithiol a chyrrff corfforaethol. Mae'n cynnwys y cyhoedd fel un, neu ran o'r cyhoedd, ynghyd ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r term yn cynnwys sefydliadau gwirfoddol ac elusennau. Caiff cyfarwyddwyr ac unigolion eraill sy'n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig hefyd eu cynnwys o fewn ystyr y term 'cyhoedd'. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys personau sy'n cynrychioli'r Goron, y Llywodraeth na'r Wladwriaeth. O ganlyniad, nid yw personau sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus swyddogol, er eu bod yn bersonau cyfreithiol, yn dod o dan gwmpas y gair cyhoedd pan fyddant yn cyflawni'r swyddogaethau swyddogol hynny.
- 1.6 Mae rhagor o wybodaeth am gwmpas a diben cynlluniau iaith Gymraeg ar gael ar wefan Comisiynydd y Gymraeg ([www.comisiynyddygybraeg.cymru](http://www.comisiynyddygybraeg.cymru))
- 1.7 Paratowyd fersiwn cyntaf y cynllun hwn (dyddiedig Mawrth 2010) o dan Adran 14 y Ddeddf – ac yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Fwrdd yr Iaith o dan Adran 9 y Ddeddf. Cafodd y Cynllun diwygiedig ei gymeradwyo gan Gomisiynydd y Gymraeg i'w gyhoeddi yn Mawrth 2018.

## 2. Cefndir y sefydliad

### Siarter

- 2.1 Ymgorfforwyd y British Council gan Siarter Brenin Siôr VI yn 1940. Cawsom Siarter Atodol yn 1992.
- 2.2 Y Siarter yw ein cyfansoddiad. Mae'n pennu'r diben rydym yn bodoli ar ei gyfer, sef:  
'Datblygu unrhyw ddiben sy'n hollol elusennol ac a fydd:
  - yn hyrwyddo dealltwriaeth ehangach o'r Deyrnas Unedig;
  - yn datblygu dealltwriaeth ehangach o'r Saesneg;
  - yn annog cydweithrediad diwylliannol, gwyddonol, technolegol ac addysgol rhwng y Deyrnas Unedig a gwledydd eraill;
  - neu'n hyrwyddo'r cynnydd mewn addysg fel arall'.

### Statws

- 2.3 Rydym yn Gorff Cyhoeddus Anadrannol gweithredol yn y Deyrnas Unedig, yn Gorfforaeth Gyhoeddus (yn nhermau cyfrifyddu) ac wedi'n cofrestru fel elusen yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.
  - Rhifau elusen 209131 (Cymru a Lloegr) a SCO37733 (Yr Alban)
  - Rhif cofrestru TAW 238767421

### Ein Gwerthoedd

- 2.4 Ein pum gwerth craidd sefydliadol yw gwerthfawrogi pobl, uniondeb, cydymddibyniaeth, creadigrwydd a phroffesiynoldeb. Mae'r rhain yn rheoli ein diwylliant sefydliadol, y penderfyniadau a wneir gennym a sut rydym yn ymddwyn yn fewnol ac wrth ddelio â chleientiaid, cwsmeriaid a chyflenwyr.
- 2.5 Rydym yn gweithredu Polisi Cyfle Cyfartal a gaiff ei hyrwyddo drwy ein strategaeth Amrywiaeth.
- 2.6 Mae Swyddfa British Council Cymru yn 1 Ffordd y Brenin, Caerdydd, CF10 3AQ.
- 2.7 Ein gwefan yw: <https://wales.britishcouncil.org> a <https://wales.britishcouncil.org/en>. Mae manylion cyswllt eraill ar ddiwedd y ddogfen hon.
- 2.8 Rydym yn gweithio gyda phobl ledled Cymru ar brosiectau ym maes addysg a chwaraeon, y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol, llywodraethu a'r gymdeithas.

### 3. Cynllunio a darparu gwasanaethau

#### Polisiau, deddfwriaeth, gwasanaethau a mentrau

- 3.1 Gweithredir ein polisiau, ein mentrau a'n gwasanaethau yn unol â'r cynllun hwn. Byddant yn cefnogi defnyddio'r Gymraeg a, lle bo'n bosibl, byddwn yn helpu'r cyhoedd yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u bywydau bob dydd.

#### Darparu gwasanaethau

- 3.2 Ein trefn arferol fydd sicrhau bod ein gwasanaethau ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg.
- 3.3 Byddwn yn rhoi gwybod i'r cyhoedd pan fo gwasanaethau ar gael yn Gymraeg.
- 3.4 Ein trefn arferol fydd gwneud unrhyw gytundebau neu drefniadau gyda thrydydd partion yn gyson â'r rhannau perthnasol o'r cynllun hwn, pan fo'r cytundebau neu'r trefniadau hynny yn ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Bydd hyn yn sicrhau bod trydydd partion yn darparu'r gwasanaethau hynny yn unol â'r cynllun hwn.

#### Safonau ansawdd

- 3.5 Ein trefn arferol fydd darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru yn Gymraeg ac yn Saesneg fydd o ansawdd cyfartal ac yn cael eu darparu o fewn yr un terfyn amser.

#### Dyfarnu grantiau

- 3.6 Pan fyddwn yn dyfarnu grantiau i weithgareddau a fydd yn cael eu cynnal yng Nghymru, byddwn yn cynnwys amodau o ran y defnydd o'r Gymraeg. Bydd y Cyngor Prydeinig yn cyfeirio at Gomisiynydd y Gymraeg am gyngor ynghylch gwobrwyo grantiau.

## 4. Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

### Gohebiaeth (drwy'r post ac e-bost)

- 4.1 Dyma fydd ein trefn arferol:
- 4.2 Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb). Bydd ein hamser targed ar gyfer ateb yr un peth â'r amser targed ar gyfer ateb llythyrau a ysgrifennir yn Saesneg.
- 4.3 Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn ddwyieithog byddwn yn canfod eu dewis iaith ac yn ymateb yn yr iaith honno.
- 4.4 Pan fyddwn yn cychwyn gohebiaeth gydag unigolyn, grwp neu sefydliad, byddwn yn gwneud hynny yn Gymraeg pan fyddwn yn gwybod y byddai'n well ganddynt ohebu yn Gymraeg, yn unol â'r canllawiau i staff y cyfeirir atynt isod.
- 4.5 Ein trefn arferol fydd canfod p'un a fydd derbynyddion gohebiaeth safonol neu gylchlythyrau yn dymuno eu cael yn Gymraeg, yn Saesneg neu'r ddwy iaith, ac i ohebiaeth fod yn ddwyieithog yn unol â'r canllawiau i staff y cyfeirir atynt isod.
- 4.6 Pan fyddwn yn cychwyn gohebiaeth gydag unigolyn, grwp neu sefydliad, pan nad ydym yn gwybod eu dewis iaith, byddwn yn gwneud hymny'n ddwyieithog.
- 4.7 Darperir canllawiau i staff er mwyn eu cynorthwyo i benderfynu pa ohebiaeth fydd yn ddwyieithog, a phryd y dylid cyhoeddi gohebiaeth safonol neu gylchlythyrau fel dogfennau dwyieithog neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, pan fo'r ohebiaeth yn dechnegol neu'n hir iawn).
- 4.8 Os bydd rhaid cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg o unrhyw ohebiaeth ar wahân, byddwn yn sicrhau bod y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd fel mater o arfer.
- 4.9 Bydd dogfennau a amgaeir gyda llythyrau dwyieithog yn ddwyieithog, pan fyddant ar gael.
- 4.10 Bydd dogfennau a amgaeir gyda llythyrau Cymraeg yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, pan fyddant ar gael.
- 4.11 Bydd pob gohebiaeth Gymraeg a anfonir gennym ar ffurf copi caled yn cael ei lofnodi.
- 4.12 Bydd troednodiadau, teitlau swyddi a manylion cyswllt yn Gymraeg neu'n ddwyieithog mewn unrhyw ohebiaeth e-bost Gymraeg a anfonir gan y British Council.

## Dogfennau cyfreithiol a chytundebau

- 4.13 Bydd yn drefn arferol gennym i gynnig dogfennau cyfreithiol a chytundebau cyfreithiol gydag unigolion, sefydliadau neu grwpiau yn newis iaith y derbynnydd. Bydd mapiau a mewnosodiadau eraill mewn cytundebau o'r fath a fenthycir neu a ddefnyddir o dan drwydded yn ymddangos yn iaith y ffynhonnell wreiddiol.

## Cyfathrebu dros y ffôn

- 4.14 Ein trefn arferol fydd sicrhau y gall y cyhoedd siarad yn Gymraeg neu'n Saesneg wrth ddelio â ni dros y ffôn.
- 4.15 Bydd ein staff sy'n siarad Cymraeg yn ateb y ffôn gyda chyfarchiad dwyieithog ac yn defnyddio negeseuon dwyieithog ar eu peiriannau ateb personol. Byddwn yn annog gweddill ein staff i ateb y ffôn gyda chyfarchiad dwyieithog a defnyddio negeseuon dwyieithog ar eu peiriannau ateb personol.
- 4.16 Os yw'r galwr yn dymuno siarad Cymraeg, bydd ein switsfwrdd yn ceisio cysylltu'r alwad â siaradwr Cymraeg sy'n gymwys i ddelio â'r ymholiad.
- 4.17 Os bydd galwr yn ffonio un o'n llinellau uniongyrchol ac yn dymuno siarad Cymraeg, ond na all y person sy'n derbyn yr alwad wneud hynny, ein trefn arferol fydd trosglwyddo'r alwad i gydweithiwr Cymraeg sy'n gymwys i ddelio â'r ymholiad.
- 4.18 Os nad oes siaradwr Cymraeg sy'n gymwys i ddelio â'r ymholiad ar gael, rhoddir dewis i'r galwr, fel y bo'n briodol, o gael siaradwr Cymraeg i alw'n ôl cyn gynted â phosibl, parhau â'r alwad yn Saesneg neu gyflwyno eu hymholiad yn Gymraeg drwy lythyr neu e-bost.
- 4.19 Oherwydd eu lleoliad, ni fyddai'n ymarferol i staff yn ein swyddfeydd y tu allan i Gymru gynnal sgysiau dros y ffôn yn Gymraeg.
- 4.20 Bydd gwasanaeth Cymraeg yn cael ei ddarparu ar ein llinell gymorth Erasmus+.
- 4.21 Mae'r British Council yn cystadlu o dan dendr am waith gan sefydliadau fel y Comisiwn Ewropeaidd. Byddwn yn awgrymu y dylid gwneud darpariaeth Gymraeg ar gyfer unrhyw waith o'r fath sy'n cysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru mewn tendrau yn y dyfodol, ond caiff y penderfyniad terfynol ei wneud gan y Comisiwn Ewropeaidd.

## Cyfarfodydd cyhoeddus

- 4.22 Nid yw'n drefn arferol gan y British Council i gynnal cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru. Os byddwn yn gwneud hynny, ein trefn arferol fydd canfod faint o alw sydd am gyfieithu ar y pryd neu gyfieithu olynol o Gymraeg i'r Saesneg a gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch ei ddarparu yn unol â hynny.
- 4.23 Bydd gwahoddiadau a hysbysebion ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yn ddwyieithog a byddant naill ai'n nodi bod cyfleusterau cyfieithu ar gael neu'n gwahodd y cyhoedd i roi gwybod i ni pa iaith yr hoffent ei siarad ymlaen llaw.
- 4.24 Byddwn yn rhoi gwybod i'r rheiny sy'n mynd i gyfarfodydd cyhoeddus pan fydd cyfleusterau cyfieithu ar gael – ac yn annog cyfraniadau yn Gymraeg.
- 4.25 Byddwn yn darparu papurau a gwybodaeth arall ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yn Gymraeg ac yn Saesneg – ac yn sicrhau y cyhoeddir adroddiadau a phapurau a gynhyrchir yn dilyn cyfarfodydd cyhoeddus yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- 4.26 Wrth ddewis staff i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd cyhoeddus, ein trefn arferol fydd sicrhau bod siaradwyr Cymraeg sy'n meddu ar y cymwysterau addas yn bresennol. Byddwn yn darparu bathodynau neu linyddau gwddf 'Iaith Gwaith' i helpu'r rheiny sy'n bresennol i weld pa aelodau staff sy'n siarad Cymraeg.

## Cyfarfodydd eraill gyda'r cyhoedd yng Nghymru

- 4.27 Pan fyddwn yn trefnu neu'n mynd i gyfarfodydd preifat gyda'r cyhoedd, byddwn yn sefydlu eu dewis iaith cyn gynted â phosibl, a'n trefn arferol fydd sicrhau bod aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ac yn meddu ar y cymwysterau addas ar gael i'r rheiny sydd â'r Gymraeg yn ddewis iaith.
- 4.28 Os nad oes siaradwr Cymraeg gyda'r cymwysterau addas ar gael, byddwn yn cynnig y dewis o barhau gyda'r cyfarfod yn Saesneg, neu ddelio â'r pwnc drwy ohebu yn Gymraeg.
- 4.29 Darperir canllawiau i staff er mwyn eu cynorthwyo i benderfynu pryd y dylid darparu gwasanaethau cyfieithu ar y pryd a/neu aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ac yn meddu ar gymwysterau addas.
- 4.30 Bydd yr uchod hefyd yn gymwys i gyfarfodydd a gynhelir gan ddefnyddio fideogynadleda ac offer tebyg.
- 4.31 Oherwydd eu lleoliad, ni fyddai'n ymarferol i staff yn ein swyddfeydd y tu allan i Gymru gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg.

### **Ymwneud arall â'r cyhoedd yng Nghymru**

- 4.32 Pan fyddwn yn cynnal arolygon cyhoeddus, ein trefn arferol fydd sicrhau bod pob agwedd ar gyfathrebu â'r cyhoedd yn ddwyieithog.
- 4.33 Gofynnir i'r rhai sy'n ymateb a fyddai'n well ganddynt ateb yr arolwg yn Gymraeg neu yn Saesneg.
- 4.34 Pan fyddwn yn trefnu seminarau, cyrsiau hyfforddi neu ddigwyddiadau tebyg i'r cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn asesu'r angen i'w darparu yn Gymraeg. Wrth wneud yr asesiad hwn, byddwn yn ystyried dewis iaith y rheiny sy'n bresennol ac a oes hyfforddwyr sy'n siarad Cymraeg ar gael.
- 4.35 Byddwn yn darparu bathodynau neu linyddau gwddf 'Iaith Gwaith' i helpu'r rheiny sy'n bresennol i weld pa aelodau staff sy'n siarad Cymraeg.



## 5. Ein hwyneb cyhoeddus

### Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a hysbysebu

- 5.1 Ein trefn arferol fydd cynhyrchu deunydd cyhoeddusrwydd, gwybodaeth gyhoeddus, arddangosfeydd a deunydd hysbysebu a ddefnyddir gennym yng Nghymru (er mwyn targedu'r cyhoedd) yn hollol ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Os bydd rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddwy fersiwn yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd. Bydd y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd a bydd yr un mor hawdd cael gafael ar y ddwy.
- 5.2 Bydd y canlynol yn eithriadau i'r uchod:
- deunyddiau a ddefnyddir mewn digwyddiadau megis eisteddfodau lle gellir defnyddio deunyddiau cyhoeddusrwydd, gwybodaeth gyhoeddus, arddangosfeydd a deunyddiau hysbysebu uniaith Gymraeg.
  - deunydd wedi'i anelu at gynulleidfa gyfyngedig ac arbenigol. Byddwn yn ystyried yr angen i gynhyrchu deunydd o'r fath yn ddwyieithog fesul achos, gan gadw natur y gynulleidfa a'r pwnc dan sylw mewn cof.
- 5.3 Bydd hysbysebion a roddir mewn papurau newydd Saesneg (neu ddeunydd tebyg) a ddosberthir yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru, yn ddwyieithog, neu byddant yn ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (gyda'r ddwy fersiwn yn ymddangos ar yr un pryd, ac yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd).
- 5.4 Bydd hysbysebion mewn cyhoeddiadau Cymraeg yn uniaith Gymraeg.
- 5.5 Bydd hysbysebion ar y teledu, yn y sinema, ar y rhynggrwyd ac ar y radio sy'n targedu'r cyhoedd yng Nghymru yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd ymgyrchoedd ar y teledu sy'n ymddangos ar S4C yn ystod oriau rhaglenni Cymraeg yn Gymraeg. Bydd ymgyrchoedd radio a ddarlledir yn ystod rhaglenni Cymraeg ar orsafoedd radio masnachol yn Gymraeg.
- 5.6 Byddwn yn osgoi defnyddio isdeitlau Cymraeg, neu dros-seinio hysbysebion yn Gymraeg (ac eithrio trosleisio).
- 5.7 Ein trefn arferol fydd i arddangosfeydd clyweledol, teithiau sain neu gyfryngau rhyngweithiol a baratoir ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru fod yn ddwyieithog.
- 5.8 Wrth staffio stondinau arddangosfeydd ac arddangosiadau, ein trefn arferol fydd sicrhau bod siaradwyr Cymraeg sydd â'r cymwysterau addas yn bresennol. Byddwn yn darparu bathodynau neu lynnau gwddf 'Iaith Gwaith' i helpu'r rheiny sy'n bresennol i weld pa aelodau staff sy'n siarad Cymraeg.

## Cyhoeddiadau

- 5.9 Ein trefn arferol fydd cyhoeddi deunydd sydd ar gael i'r cyhoedd yn ddwyieithog, yn unol â'r canllawiau i staff y cyfeirir atynt isod, gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen.
- 5.10 Os bydd rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, pe byddai un ddogfen yn rhy hir neu'n rhy swmpus), bydd y ddwy fersiwn yn gyfartal o ran maint ac ansawdd – a'n trefn arferol fydd sicrhau bod y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd a'i bod yr un mor hawdd cael gafael arnynt. Bydd pob fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.
- 5.11 Os nad ydynt ar gael am ddim, ni fydd pris dogfen ddwyieithog yn fwy na phris cyhoeddiad mewn un iaith – a bydd pris fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân yr un fath.
- 5.12 Bydd yr uchod hefyd yn berthnasol i ddeunydd sydd ar gael yn electronig ar ein gwefan, ar CD Rom neu fel arall.
- 5.13 Darperir canllawiau i staff i'w cynorthwyo i benderfynu'n wrthrychol pa gyhoeddiadau a gaiff eu darparu'n ddwyieithog a phryd y dylid cyhoeddi deunyddiau fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân neu fel dogfen ddwyieithog.
- 5.14 Byddwn yn darparu fformatau eraill o ddogfennau yn Gymraeg ac yn Saesneg ar gais os bydd angen.

## Gwefannau

- 5.15 Mae'r gynulleidfa ar gyfer y rhan fwyaf o'r deunyddiau ar wefan y British Council dramor. Bydd gan y rhannau o'r wefan a anelir at y cyhoedd ym Mhrydain, ac yn enwedig gwefan British Council Cymru, gynnwys Cymraeg a Saesneg.
- 5.16 Ein trefn arferol fydd darparu fersiynau Cymraeg o'r deunyddiau rhyngweithiol ar y rhannau hyn o'n gwefannau.
- 5.17 Byddwn yn paratoi rhaglen, i'w chytuno â Chomisiynydd y Gymraeg, yn nodi sut y byddwn yn cynyddu'r cynnwys Cymraeg ar ein gwefan dros amser.
- 5.18 Pryd bynnag y byddwn yn gosod cyhoeddiadau Saesneg ar y rhannau hyn o'n gwefannau, bydd y fersiynau Cymraeg yn cael eu gosod ar yr un pryd, os byddant ar gael.
- 5.19 Wrth ddylunio gwefannau newydd, neu ailddatblygu ein gwefannau presennol, ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn ystyried canllawiau Comisiynydd y Gymraeg: [Technoleg, gwefannau a meddalwedd: Ystyried y Gymraeg](#) ac unrhyw ganllawiau eraill a gyhoeddir gan y Comisiynydd mewn perthynas â datblygu gwefannau.

## **Ffurflenni a deunydd eglurhaol cysylltiedig**

- 5.20 Ein trefn arferol fydd sicrhau bod pob ffurflen at ddefnydd y cyhoedd yng Nghymru yn hollol ddwyieithog, yn unol â'r canllawiau i staff y cyfeirir atynt isod, gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen. Bydd hyn yn cynnwys ffurflenni rhyngweithiol a gyhoeddir ar ein gwefannau. Bydd deunydd eglurhaol cysylltiedig yn hollol ddwyieithog yn unol â'r canllawiau i staff y cyfeirir atynt isod.
- 5.21 Os bydd rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, pe byddai un ddogfen yn rhy hir neu'n rhy swmpus), bydd y ddwy fersiwn yn gyfartal o ran maint ac ansawdd – a byddwn yn sicrhau bod y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd a'i bod yr un mor hawdd cael gafael arnynt. Bydd pob fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.
- 5.22 Darperir canllawiau i staff er mwyn eu cynorthwyo i benderfynu'n wrthrychol pryd y dylai ffurflenni a deunydd eglurhaol cysylltiedig gael eu cyhoeddi fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân neu fel dogfennau dwyieithog.
- 5.23 Pan fyddwn yn rhoi gwybodaeth ar fersiynau Cymraeg o ffurflenni a gaiff eu hanfon at y cyhoedd, byddwn yn gwneud hynny yn Gymraeg.
- 5.24 Pan fyddwn yn rhoi gwybodaeth ar ffurflenni dwyieithog a gaiff eu hanfon at y cyhoedd, byddwn yn gwneud hynny'n ddwyieithog oni bai ein bod yn gwybod y byddai'n well gan bobl dderbyn y wybodaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg yn unig.
- 5.25 Pan fydd sefydliadau eraill yn dosbarthu ffurflenni ar ein rhan, ein trefn arferol fydd sicrhau y byddant yn gwneud hynny yn unol â'r uchod.
- 5.26 Byddwn yn darparu ffurflenni a dogfennau eglurhaol cysylltiedig ar fformatau amgen ar gais os bydd angen.
- 5.27 Lle bo cyflwyno ffurflenni yn rhan o waith a wneir i gleientiaid allanol sydd â gofynion iaith penodol (e.e. ffurflenni sy'n mynd yn uniongyrchol i gronfa ddata'r Comisiwn Ewropeaidd sy'n gofyn am un o ieithoedd swyddogol y Comisiwn Ewropeaidd) yna ni ddarperir ffurflenni dwyieithog.

## Hunaniaeth gorfforaethol ac enwau brand

- 5.28 Ni fydd enw'r British Council yn cael ei gyfieithu gan fod hunaniaeth gorfforaethol fyd-eang gan yr enw uniaith hwn. Yng Nghymru, rydym yn defnyddio 'British Council Cymru' neu 'British Council Wales', neu British Council Wales Cymru. Fel rheol, defnyddir yr enw British Council Wales mewn dogfennau Saesneg, a'r enw British Council Cymru yn y fersiynau Cymraeg. Mewn rhai sefyllfaoedd bydd y ffurf ddwyieithog British Council Wales Cymru yn briodol (e.e. uwchben arddangosfa ddwyieithog).
- 5.29 Bydd ein manylion cyswllt a'n sloganau a gwybodaeth safonol arall yn ymddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, fel y bo'n briodol, ar bob deunydd sy'n dangos ein hunaniaeth gorfforaethol. Mae hyn yn cynnwys ein deunydd ysgrifennu – a deunyddiau fel cardiau busnes, bathodynau adnabod, pasys, tocynnau, cardiau cydnabod, slipiau cyfarch, gwahoddiadau a cherbydau.
- 5.30 Ni chaiff enwau brand a ddefnyddir yn rhyngwladol, ar gyfer rhaglenni a gynhelir gennym ar ran cleientiaid, fel Erasmus+ ac "e-twinning" eu cyfieithu.
- 5.31 Efallai y byddwn yn defnyddio brandio uniaith Gymraeg ar gyfer rhai mentrau.

## Arwyddion yng Nghymru

- 5.32 Ein trefn arferol fydd sicrhau bod pob un o'n harwyddion parhaol a dros dro, sy'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd, yn ddwyieithog gyda'r testun Cymraeg a Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal o ran maint, eglurder ac amlygrwydd.
- 5.33 Byddwn yn glynu wrth y drefn hon pryd bynnag y gosodir arwyddion am y tro cyntaf, neu pryd bynnag y byddwn yn gosod arwyddion newydd yn lle hen rai.
- 5.34 Lle caiff arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân eu defnyddio, byddant yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd ac amlygrwydd.
- 5.35 Bydd yr uchod yn berthnasol i bob math o arwydd, gan gynnwys arwyddion electronig.
- 5.36 Bydd arwyddion a ddefnyddir mewn digwyddiadau fel eisteddfodau lle gellir defnyddio arwyddion uniaith Gymraeg yn eithriad i'r uchod.
- 5.37 Ni chaiff y geiriau "British Council" eu cyfieithu ar arwyddion gan fod hunaniaeth gorfforaethol fyd-eang ar gyfer yr enw uniaith hwn.

## **Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff**

- 5.38 Bydd hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff mewn papurau newydd Saesneg (neu gyfryngau tebyg) a ddosberthir yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru yn ddwyieithog neu'n ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Bydd hysbysiadau yn Gymraeg mewn cyhoeddiadau Cymraeg.
- 5.39 Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd ac amlygrwydd – p'un ai'n un fersiwn ddwyieithog neu fel hysbysiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân.
- 5.40 Yn y cyfryngau Saesneg, gellir hysbysebu swyddi yn Gymraeg pan fo'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, gyda disgrifiad byr yn Saesneg.
- 5.41 Bydd hysbysiadau recriwtio mewn cylchgronau Saesneg (a chyhoeddiadau eraill) a ddosberthir ledled y Deyrnas Unedig yn ymddangos yn Saesneg yn unig, oni bai bod y swydd yn un lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol. Os felly, gallai'r hysbysiad fod yn gwbl ddwyieithog, neu'n Gymraeg gydag esboniad byr yn Saesneg.
- 5.42 Bydd unrhyw hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus neu hysbysiadau recriwtio staff mewn manau eraill yng Nghymru yn ddwyieithog.

## **Datganiadau i'r wasg a chyswllt â'r cyfryngau**

- 5.43 Bydd datganiadau i'r wasg a anfonir at y wasg Gymraeg a'r cyfryngau darlledu yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg, lle bydd terfynau amser yn caniatáu hynny.
- 5.44 Pan fyddwn yn cyhoeddi datganiadau i'r wasg ar ein gwefan, sy'n targedu'r wasg neu'n cynnwys gwybodaeth sy'n berthnasol i Gymru, ein trefn arferol fydd eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- 5.45 Os byddwn am ymgysylltu â'r wasg a'r cyfryngau, ein trefn arferol fydd sicrhau bod siaradwyr Cymraeg ar gael i gynnal cyfweiliadau â'r wasg a'r cyfryngau darlledu Cymraeg.
- 5.46 Efallai y byddwn yn ymgysylltu â'r wasg a'r cyfryngau Cymraeg yn unig mewn rhai achosion.

## 6. Gweithredu'r cynllun

### Staffio

- 6.1 Mae angen i bob un o'n gweithleoedd sydd â chyswllt â'r cyhoedd yng Nghymru allu gwneud defnydd o staff sydd â sgiliau siarad Cymraeg digonol a phriodol er mwyn galluogi'r gweithleoedd hynny i ddarparu gwasanaeth cyflawn yn Gymraeg. Caiff y gweithdrefnau canlynol eu gweithredu yn unol â hynny:
- 6.2 Byddwn yn nodi'r gweithleoedd a'r swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol. Mae'n bosibl y diffinnir y gofyniad hwn fel elfen o weithle neu dîm, neu fe ellid ei gysylltu â swydd benodol.
- 6.3 Byddwn yn cynnal archwiliadau blynyddol i ganfod nifer, lefel gallu a lleoliad staff sy'n siarad, yn darllen ac yn ysgrifennu Cymraeg (gan gynnwys staff sy'n dysgu Cymraeg). Byddwn hefyd yn adnabod staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg.
- 6.4 Caiff canlyniadau'r ddau ymarferiad hwn eu cymharu er mwyn nodi gweithleoedd lle mae prinder staff sy'n siarad Cymraeg. (Efallai y byddwn yn ystyried gwasanaethau a gynigir gan linell gymorth neu gyfleuster tebyg wrth i ni wneud hynny).
- 6.5 Byddwn yn ymateb i unrhyw brinder drwy ein gweithgarwch recriwtio a hyfforddi.
- 6.6 Byddwn hefyd yn ystyried y posibilrwydd o gynnig cyfle i staff presennol sy'n siarad Cymraeg lenwi'r swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol.

## Recriwtio

- 6.7 Wrth recriwtio staff a leolir yng Nghymru byddwn yn cael ein llywio gan yr wybodaeth a gasglwyd drwy ddilyn y gweithdrefnau a ddisgrifir o dan Staffio uchod.
- 6.8 Lle caiff rhuglder yn y Gymraeg ei ystyried yn ddymunol neu'n hanfodol, caiff hyn ei nodi mewn cymwyseddau a hysbysebion swyddi.
- 6.9 Lle na ellir dod o hyd i unrhyw ymgeisydd addas a all siarad Cymraeg ar gyfer swydd lle mae Cymraeg yn ddymunol, anogir yr unigolyn a benodir i ddysgu Cymraeg.
- 6.10 Gellir penodi ymgeisydd na all siarad Cymraeg ar gyfer swydd lle mae Cymraeg yn hanfodol, ond lle gellir rhoi amser i'r unigolyn hwnnw ddysgu'r iaith. Yn yr achosion hyn, bydd dysgu'r iaith i'r lefel ofynnol o gymhwysedd, o fewn cyfnod rhesymol y cytunwyd arno, yn faen prawf perfformiad penodol.
- 6.11 Pan na ellir dod o hyd i unrhyw ymgeisydd addas sy'n siarad Cymraeg ar gyfer swydd lle mae'r Gymraeg yn hanfodol (neu tra bod ymgeisydd na all siarad Cymraeg sydd wedi'i benodi yn dysgu'r iaith) byddwn yn gwneud trefniadau dros dro lle gellir darparu'r gwasanaeth Cymraeg (drwy ddefnyddio, er enghraifft, staff sy'n siarad Cymraeg o fannau eraill yn ein sefydliad i ddarparu rhannau o'r gwasanaeth).
- 6.12 Darperir pecynnau gwybodaeth a ffurflenni cais yn Gymraeg ac yn Saesneg ar gyfer pob un o'n swyddi lle caiff rhuglder yn y Gymraeg ei ystyried yn ddymunol neu'n hanfodol. Ar gyfer pob swydd arall, darperir pecynnau gwybodaeth a ffurflenni cais yn Gymraeg pan wneir cais amdanynt gan ymgeisydd am swydd.

## Hyfforddiant iaith

- 6.13 Anogir ein staff a leolir yng Nghymru i ddysgu neu i wella eu Cymraeg – a byddwn yn cefnogi'r rheiny sydd am wneud hynny. Rhoddir blaenoriaeth i'r rheiny sydd â chysylltiad helaeth a rheolaidd â'r cyhoedd, neu sy'n delio â siaradwyr Cymraeg yn rheolaidd fel rhan o'u gwaith.
- 6.14 Lle bo angen defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith, bydd staff sydd angen gwella eu Cymraeg yn cytuno ar hyn gyda'u rheolwr llinell ac yn ei gofnodi yn eu Cynllun Datblygu Perfformiad. Bydd y British Council yn ariannu hyfforddiant i staff o'r fath ac yn caniatáu iddynt fynd i gyrsiau yn ystod amser gwaith.
- 6.15 Ar gyfer pob aelod arall o staff a leolir yng Nghymru, bydd y British Council yn ariannu hyfforddiant yn y Gymraeg iddynt mewn dosbarthiadau yn eu hamser eu hunain.

## Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

- 6.16 Bydd yr angen i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg yn cael ei ystyried wrth i ni ddatblygu, dylunio a phrynu cynhyrchion a gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Wrth i ni wneud hynny, byddwn yn ystyried canllawiau Comisiynydd y Gymraeg: [Technoleg, gwefannau a meddalwedd: Ystyried y Gymraeg](#).
- 6.17 Lle bo'n ymarferol, byddwn yn addasu ein systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu presennol er mwyn sicrhau eu bod yn ein galluogi i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg yn unol â'r cynllun hwn.

## Gwaith partneriaeth

- 6.18 Pan fyddwn yn gweithredu fel yr arweinydd strategol ac ariannol o fewn partneriaeth ffurfiol, byddwn yn sicrhau bod pob elfen gwasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio â'r cynllun hwn.
- 6.19 Pan fyddwn yn ymuno â phartneriaeth ffurfiol y mae sefydliad arall yn ei harwain, bydd ein cyfraniad i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r cynllun hwn a byddwn yn annog y partneriaid eraill i gydymffurfio.
- 6.20 Pan fyddwn yn bartner mewn consortiwm, byddwn yn annog y consortiwm i gydymffurfio â'r cynllun hwn. Wrth weithredu yn enw'r consortiwm, ein trefn arferol fydd gweithredu yn unol â'r cynllun hwn.



## Trefniadau mewnol

- 6.21 Cyfeirir at Gynllun Iaith Gymraeg y British Council yn ein Polisi Cyfle Cyfartal a gaiff ei hyrwyddo drwy ein Strategaeth Amrywiaeth.
- 6.22 Bydd y British Council yn adolygu cydymffurfiaeth staff â'r cynllun yn barhaus.
- 6.23 Bydd gan reolwyr gyfrifoldeb o weithredu'r agweddau hynny ar y cynllun sy'n berthnasol i'w gwaith.
- 6.24 Byddwn yn penodi uwch aelod o staff i gydlynu'r gwaith sy'n ofynnol i gyflawni, monitro ac adolygu'r cynllun hwn. Ar hyn o bryd Alison Cummins sy'n gwneud hyn, a gellir cysylltu â hi drwy ffonio 029 2092 4334 neu drwy e-bostio [alison.cummins@britishcouncil.org](mailto:alison.cummins@britishcouncil.org).
- 6.25 Bydd y cynllun yn cael ei gyhoeddi i'n staff, ac i'r cyhoedd yng Nghymru. Bydd yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan.
- 6.26 Byddwn yn llunio canllawiau i staff, er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod sut i weithredu'r mesurau yn y cynllun hwn.
- 6.27 Caiff canllawiau presennol a ddefnyddir gan ein staff eu diwygio i adlewyrchu'r mesurau yn y cynllun hwn.
- 6.28 Byddwn yn trefnu sesiynau briffio i'n staff er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r cynllun hwn – ac i egluro sut y bydd yn effeithio ar eu gwaith o ddydd i ddydd.
- 6.29 Byddwn yn sicrhau mai dim ond cyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd cymwys y byddem yn eu defnyddio pan fyddwn yn defnyddio darparwr allanol ar gyfer cyfieithu deunydd electronig a deunydd a argreffir – ac ar gyfer cyfieithu ar y pryd. Byddwn yn disgwyl i'r cyfieithwyr hynny fod yn aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru neu sefydliad tebyg.
- 6.30 Bydd unrhyw fath o gysylltiad â'r cyhoedd yng Nghymru nad yw'r cynllun hwn yn ymdrin yn benodol ag ef, yn cael ei gynnal mewn modd sy'n gyson â'r egwyddorion cyffredinol yn y cynllun hwn.

## **Y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol**

6.31 Pan fyddwn yn rhyddhau gwybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, byddwn fel arfer yn darparu gwybodaeth yn yr iaith y'i delir yn unig. Os delir yr wybodaeth yn Saesneg, byddwn yn ei chyfieithu i'r Gymraeg:

- pan mai'r Gymraeg yw dewis iaith yr ymgeisydd
- pan nad yw'r wybodaeth eisoes ar gael yn Gymraeg
- pan nad yw nifer y geiriau i'w cyfieithu yn fwy na 100 gair.

## **Monitro**

6.32 Byddwn yn monitro ein cynnydd wrth gyflawni'r cynllun hwn.

6.33 Bydd ein gweithdrefnau monitro ac adrodd presennol yn cyfeirio at gynnydd o ran cyflawni'r cynllun hwn, fel y bo'n briodol.

6.34 Byddwn yn cyflwyno adroddiadau i Gomisiynydd y Gymraeg ar ein cynnydd o ran cyflawni'r cynllun hwn.

6.35 Byddwn yn darparu adroddiad blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg ar ffurf a gaiff ei gymeradwyo gan Gomisiynydd y Gymraeg, sy'n disgrifio cynnydd wrth weithredu'r mesurau yn y cynllun.

## **Adolygu a diwygio'r cynllun**

6.36 Byddwn yn diwygio'r cynllun hwn o fewn pedair blynedd iddo ddod i rym/gael ei ddiwygio.

6.37 Hefyd, o bryd i'w gilydd, efallai y bydd angen i ni adolygu'r cynllun hwn, neu gynnig newidiadau iddo, yn sgil newidiadau i'n swyddogaethau, neu i'r amgylchiadau ar gyfer ymgymryd â'r swyddogaethau hynny, neu am unrhyw reswm arall.

6.38 Ni wneir unrhyw newidiadau i'r cynllun hwn heb gymeradwyaeth gan Comisiynydd y Gymraeg.

## Cwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwella

6.39 Dylid anfon cwynion yn ymwneud â'r cynllun hwn, neu awgrymiadau ar gyfer gwella, i'r cyfeiriad canlynol:

**Cynllun Iaith Gymraeg y British Council**  
British Council Cymru  
1 Ffordd y Brenin  
Caerdydd  
CF10 3AQ

6.40 Neu drwy anfon e-bost at: [alison.cummins@britishcouncil.org](mailto:alison.cummins@britishcouncil.org)

Nodwch eich enw, cyfeiriad post a/neu gyfeiriad e-bost a/neu rif ffôn fel y gallwn ymateb.

6.41 Ymdrinnir â phob cwyn o ddifrif ac yn ddiwedd, ac ymatebir yn brydlon. Ein nod yw cydnabod eich sylw neu gwyn o fewn pum niwrnod a byddwn yn ceisio ymateb i adborth neu ddatrys cwynion o fewn 15 diwrnod gwaith.

6.42 Gall cwsmeriaid sydd â nam ar eu clyw a/neu leferydd roi adborth neu wneud eu cwyn drwy neges destun i'r rhif canlynol: 07826532212

6.43 Byddwn yn cydweithio â Chomisiynydd y Gymraeg er mwyn mynd i'r afael â chwynion – ac yn ystod unrhyw ymchwiliadau a gynhelir o dan Adran 17 Deddf yr Iaith Gymraeg neu adrannau 111-119 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

